

**Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005**

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Pont Y Gof
Botwnnog
Gwynedd
LL53 8RA**

Rhif yr Ysgol: 6613004

Dyddiadau yr Arolygiad: 21-23/05/07

gan

**Edward Goronwy Morris
78283**

Dyddiad Cyhoeddi: 24/07/2007

O dan rif contract Estyn: 1117006

® Hawlfraint y Goron 2007: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir

codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Pont Y Gof fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Pont y Gof rhwng 21.05.07 a 23.05.07, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Edward Goronwy Morris. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| | |
|----------------|---|
| Gradd 1 | da gyda nodweddion rhagorol |
| Gradd 2 | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| Gradd 3 | nodweddion da'n gorbwyso diffygion |
| Gradd 4 | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| Gradd 5 | llawer o ddiffygion pwysig |

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALIau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

| | | | | | | | |
|-----------|-----|-----|-----|-----|-----|------|-------|
| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Sector uwchradd:

| | | | | | | | |
|-----------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|
| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

| | |
|--------------------|---------------------------|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

| Cynnwys | Tudalen |
|--|----------------|
| Cyd-destun | 1 |
| Crynodeb | 2 |
| Argymhellion | 7 |
| Safonau | 8 |
| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 8 |
| Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant | 11 |
| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 11 |
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 12 |
| Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | 15 |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | 18 |
| Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? | 18 |
| Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 19 |
| Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 20 |
| Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu | 21 |
| Mathemateg | 21 |
| Gwyddoniaeth | 22 |
| Dylunio a thechnoleg | 23 |
| Daearyddiaeth | 24 |
| Cerddoriaeth | 24 |
| Addysg gorfforol | 25 |
| Ymateb yr ysgol i'r arolygiad | 27 |
| Atodiadau | 28 |
| 1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol | 28 |

| | | |
|---|--|----|
| 2 | Data a dangosyddion ysgol | 29 |
| 3 | Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol | 30 |
| 4 | Sail dystiolaeth yr arolygiad | 32 |
| 5 | Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu | 33 |

Cyd-destun

Natur y darparwr

- 1 Ysgol Gynradd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac yn cael ei chynnal gan Awdurdod Addysg Lleol Gwynedd yw Ysgol Pont y Gof. Lleolir yr ysgol ym mhentref bychan Botwnnog ym mhen Llyn. Mae dalgylich yr ysgol yn un lled eang sydd cynnwys pentrefi Sarn Mellteyrn, Llaniestyn a Garn Fadryn. Mae ardal yr ysgol wedi ei dynodi fel ardal difreintiedig. Mae 8% o'r disgyblion wedi'u cofrestru fel rhai â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na cyfartaledd yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI) o 12.8% a'r ganran ar draws Cymru o 18.8%. Mae 73% o'r disgyblion yn dod o aelwydydd Cymraeg, tra bod 86% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae canlyniadau asesiad sylfaen yn yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y sir.
- 2 Ar hyn o bryd, mae 69 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol o oedran derbyn i B6. Ceir yma hefyd uned feithrin a fynychir yn rhan amser gan 10 o blant. Mae 15 o'r disgyblion wedi eu hadnabod fel rhai ag Anghenion Addysg Arbennig (AAA) gan gynnwys 4 ar Gweithredu Ysgol a Mwy. Does dim plant yn yr ysgol yn derbyn cymorth dysgu mewn Saesneg fel iaith ychwanegol, nac ychwaith unrhyw blentyn sydd a gofal arnynt gan yr Awdurdod Lleol.
- 3 Lleolir Uned Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ar safle'r ysgol sy'n gwasanaethu ysgolion y dalgylich. Bydd cefnogaeth yn cael ei gynnig yn bennaf i blant sydd ar gam tri neu datganiad o AAA.
- 4 Mae gan yr ysgol 4 o athrawon llawn-amser yn cynnwys y pennaeth. Yn ychwanegol mae un aelod rhan amser. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2005. Llwyddwyd i ennill achrediad Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am yr ail waith yn 2005. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2001.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

- 5 Mae gan yr ysgol nodau ac amcanion sy'n cwmpasu holl waith yr ysgol. Mae Cynllun Datblygu'r Ysgol (CDY) yn cynnwys blaenoriaethau tymor byr a thymor hir. Mae'r ysgol hefyd yn gosod targedau mewn perthynas â safonau cyflawniad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.
- 6 Yn y flwyddyn ysgol bresennol, rhoddir blaenoriaeth i:
 - Datblygu'r Cyngor Ysgol
 - Diweddarau Cynlluniau Gwaith
 - Ysgol Werdd
 - Hunan Arfarnu

Crynodeb

- 7 Mae Ysgol Pont y Gof yn ysgol dda gydag agweddau rhagorol. Rhinwedd arbennig yr ysgol yw'r cyfoeth o brofiadau a gynigir i'r disgyblion o fewn cymuned glos a chyfeillgar sy'n hyrwyddo gofal a chefnogaeth rhagorol. O ganlyniad mae'r ysgol yn rhoi seiliau cadarn i'r disgyblion ddatblygu'n hyderus ddwyieithog ac yn aelodau cyfrifol o'u cymuned.
- 8 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol mewn chwech o'r saith cwestiwn allweddol. Yn y cwestiwn arall dyfarnwyd gradd uwch.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

| Cwestiwn Allweddol | Gradd arolygu |
|--|---------------|
| 1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | Gradd 2 |
| 2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | Gradd 2 |
| 3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | Gradd 1 |
| 4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | Gradd 1 |
| 5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? | Gradd 2 |
| 6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | Gradd 2 |
| 7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | Gradd 2 |

- 8 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

Yn CA1 a CA2, yn y pynciau a arolygwyd mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

| Pynciau | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|--------------------|--------------------|--------------------|
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Gwyddoniaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Dylunio Thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Cerdd | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg Gorfforol | Gradd 2 | Gradd 2 |

- 9 Mae plant dan bump ynghyd â disgyblion y ddau gyfnod allweddol, yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial. Mae agweddau disgyblion at eu dysgu yn gryfder yn yr ysgol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y safonau a gyrrhaeddir ganddynt.
- 10 Mae medrau allweddol y disgyblion yn dda. Ar draws yr ysgol maent yn cyfathrebu'n dda gyda'i gilydd a gydag oedolion, yn gwrando'n astud iawn ac yn darllen ac ysgrifennu yn ôl eu gallu a'u hoedran. Serch hynny mae nifer yn CA2 yn ansicr gyda geiriau anghyfarwydd yn Saesneg ac mae sgiliau sillafu nifer yn gyfyng. Mae safonau llawysgrifen yn anwastad. Datblyga'r disgyblion eu sgiliau mathemategol a thechnoleg gwybodaeth yn dda mewn amryw o gyd-destunau.
- 11 ystyried y data dros dreigl 3 mlynedd mae canlyniadau yn y ddau gyfnod allweddol yn gyson uwch nag ysgolion tebyg. Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol.
- 12 Ar ddiwedd CA1, yn 2006 roedd cyrraedd y disgyblion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r awdurdod lleol. O feincnodi'r canlyniadau gydag ysgolion cyffelyb, sef rhai sydd a mwy na 8% ond llai na 16% o'r disgyblion a hawl i gael pryd o fwyd am ddim mae'r canlyniadau yn uwch na'r canolrif. O feincnodi'r canlyniadau CA2 gan gynnwys Saesneg yn 2006 gydag ysgolion cyffelyb, mae'r canlyniadau yn y chwarter uchaf
- 13 Mae'r gymhwysedd dwyieithog yn nodwedd rhagorol o'r ysgol. Mae'r disgyblion yn hyderus ddwyieithog. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda iawn o'u hardal leol.
- 14 Mae ymddygiad y disgyblion yn ragoriaeth. Mae hyn yn rhoi seiliau cadarn i'r disgyblion ddatblygu'n aelodau cyfrifol o'r gymuned. Mae'r Cyngor Ysgol yn gweithredu yn eithriadol o dda.
- 15 Mae lefelau presenoldeb yr ysgol ar draws y tri thymor llawn diwethaf ychydig dros 95%. Mae hyn yn cymharu yn dda gydag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb hefyd yn dda.
- 16 Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu sgiliau personol a chymdeithasol. Maent yn hynod o gwrtais ac yn dangos parch wrth ymateb yn frwdfrydig i athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol.
- 17 Mae'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o faterion cyfleon cyfartal ac o amrywiaeth a thraddodiadau cymdeithasol a diwylliannol gwahanol o fewn cymdeithas..
- 18 Mae cyfraniad y disgyblion at fywyd y gymuned, gydag ystod eang o weithgareddau yn dda. Effaith hyn yw ymgyfoethogi y cwricwlwm a phrofiadau y plant.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---------|---------|---------|---------|---------|
| 17% | 75% | 8% | % | % |

- 19 Mae hyn yn cymharu'n dda â'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2005 i 2006. Yn genedlaethol y mae ansawdd y dysgu'n dda mewn 79% o wersi, gyda 17% o'r gwersi hynny'n meddu ar nodweddion rhagorol.
- 20 Gwelwyd addysgu da ym mhob dosbarth. Mae athrawon wedi sefydlu perthynas dda iawn gyda'r disgyblion yn seiliedig ar barch ddwy ffordd ac maent yn creu hinsawdd sy'n gydnaws â dysgu effeithiol. Ceir paratoi trylwyr a thasgau addas sy'n cyfateb i anghenion y gwahanol oedrannau o fewn y dosbarth.
- 21 Yn y gwersi a farnwyd yn eithriadol ceir cyflwyniadau egniol a bywiog, a amrywiaeth strategaethau addysgu, sgiliau holi eithriadol a dysgu mwy annibynnol ymysg y disgyblion. Yn yr ychydig wersi lle nodwyd diffygion ceir diffyg pwyslais ar gywiro, gwella a datblygu sgiliau ieithyddol y disgyblion.
- 22 Mae gweithdrefnau addas ar gyfer asesu, cofnodi ac adrodd ar gynnydd a chyflawniad disgyblion yn weithredol o fewn yr ysgol. Mae'r drefn yn bodloni gofynion statudol ar gyfer asesu ac adrodd ar y CC.
- 23 Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac yn aml. Serch hynny nid yw'r drefn bob amser yn cynnig awgrymiadau clir i'r disgyblion ar sut i wella eu gwaith eu hunain.
- 24 Cydymffurfia'r ysgol yn llawn â'r gofynion statudol parthed adrodd yn ôl i'r rhieni ac asiantaethau eraill.
- 25 Mae nodweddion rhagorol i'r profiadau dysgu a ddarperir ar gyfer y disgyblion o fewn eu cymuned a'r amgylchedd leol.
- 26 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu medrau dwyieithog yn rhagorol. Sicrheir fod pob plentyn, beth bynnag eu cefndir, yn datblygu sgiliau dwyieithrwydd i'r eithaf. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael lle amlwg iawn mewn nifer o weithgareddau yr ysgol, ac mae gwybodaeth y disgyblion o'u hamgylchedd a'u cynefin yn rhagorol.
- 27 Mae'r sylw a roddir i ddatblygiad cynaliadwy yn dda, gyda sylw i'r amgylchfyd ac ailgylchu. Mae elfennau o ragoriaeth yn yr astudiaeth ar ailgylchu. Mae dealltwriaeth y disgyblion o egwyddorion y Farchnad Deg yn rhagorol.
- 28 Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau o fewn yr un dosbarth yn dda. Serch hynny, nid yw'r arfer o addasu tasgau ar gyfer galluoedd disgyblion yn gyson.
- 29 Gwneir defnydd effeithiol o gynnwys y medrau allweddol o fewn gwersi a gwneir defnydd eang o TGCh i gyfoethogi ac ehangu gorwelion disgyblion.

- 30 Mae gan yr ysgol amrediad dda o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol. Mae'r ysgol yn ymestyn allan i'r gymuned ac yn cynnwys pentrefi yr ardal yng ngweithgareddau'r ysgol. Mae'r cysylltiadau gyda'r rhieni yn gadarn Cyfranna y rhieni ac aelodau o'r gymuned, yn hael, at waith yr ysgol.
- 31 Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae gan yr ysgol yr holl bolisiâu gofynnol. Maent oll yn gynhwysfawr, a llwyr weithredol.
- 32 Mae gan yr ysgol amrediad dda o gysylltiadau a busnes i hyrwyddo addysg cysylltiedig a gwaith a hefyd canfyddiadau galwedigaethol. Rhoddir sylw da hefyd i Fenter.
- 33 Mae nodweddion rhagorol parthed y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr.
- 34 Mae holl ethos yr ysgol yn hyrwyddo gofal a chefnogaeth arbennig i'r disgyblion Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer plant di-Gymraeg, sydd yn cyrraedd yn ystod Blwyddyn Ysgol, yn rhagorol.
- 35 Mae holl staff yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i sefydlu cymdeithas gydweithredol a hyderus sydd yn arwain at gymuned glos a hapus. Mae'r ysgol yn cydweithio mewn partneriaeth gyda'r rhieni a gofalwyr yn dda iawn.
- 36 Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgwr, gyda sylw dda i oddefgarwch, brawdgarwch a charedigrwydd. Oherwydd hyn teimla y disgyblion yn gysurus yn eu gallu i droi at unrhyw aelod o'r staff am gyfarwyddyd neu gymorth. Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau clir a phriodol yn eu lle ar gyfer amddiffyn plant.
- 37 Mae'r ddarpariaeth ysgol i ymateb i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda, ac yn ymateb a gofynion y Cod Ymarfer AAA Cymru.
- 38 Mae Uned Addysg Arbennig y dalgylch wedi ei leoli yn yr ysgol, gyda disgyblion ac Anghenion Arbennig yn cael eu cyfeirio yno gan y Sir ar gyfer cymorth ychwanegol bob bore. Mae'r disgyblion yn derbyn arweiniad a chymorth o safon uchel ac yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith.
- 39 Mae gwaith y disgyblion yn cael ei adolygu yn barhaol a'r cynnydd yn cael ei gofnodi yn gyson. Mae y rhieni yn cael eu cynnwys ym mhob adolygiad.
- 40 Mae'r Ysgol wedi sefydlu strwythur glir i ymdrin ac unrhyw ymddygiad sydd yn debygol o amharu ar gynnydd y disgyblion. Mae y gweithdrefnau gogyfer ymddygiad, disgyblaeth a gwrth fwlian hefyd yn gadarn.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

41. Mae nodau a pholisiâu priodol wedi eu llunio sy'n canolbwyntio ar anghenion disgyblion ac ar greu'r amodau gorau posibl i bob unigolyn ddatblygu a ffynnu. Maent yn cael eu hadlewyrchu'n dda yng ngwaith ac ethos yr ysgol.

42. Mae'r pennaeth, y Corf Llywodraethol a'r staff yn darparu arweiniad eglur i ddatblygiad yr ysgol. Rhoddir ystyriaeth dda i flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru.
43. Mae'r targedau ysgol gyfan a bennir yn dargedau cyraeddadwy a realistig ac wedi eu selio ar berfformiad tebygol pob disgybl. Mae strategaethau effeithiol wedi'u sefydlu ar gyfer cyrraedd y targedau a osodir.
44. Ysgwydda'r staff gyfran dda o gyfrifoldebau dros agweddau o'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu ymhellach eu rôl parthed monitro cyflawniad disgyblion.
45. Mae'r llywodraethwyr yn hynod o gefnogol i'r pennaeth ac yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae nodweddion da i swyddogaeth y Corff Llywodraethol yn natblygiad strategol yr ysgol. Mae'r Corff yn bodloni'r holl ddyletswyddau cyfreithiol a osodir arnynt ac mae'r polisïau perthnasol yn eu lle.
46. Mae diwylliant o hunan arfarnu yn datblygu o fewn yr ysgol ac mae gweithdrefnau hunan arfarnu da wedi eu sefydlu. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i gryfhau'r broses gan ganolbwyntio'n fwy penodol ar arfarnu safonau a gyflawnir gan y disgyblion a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella. Mae rôl weithredol gan yr holl staff a'r Corff Llywodraethol. Nid oes ar hyn o bryd drefniadau ffurfiol i sicrhau barn rhieni a'r gymuned ehangach.
47. Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol yn ddogfen ddefnyddiol ar gyfer rhoi cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymwybodol fod angen cyswllt mwy clir rhwng deilliannau'r hunan arfarnu a'r blaenoriaethau a bennir yn y CDY.
48. Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolwg diwethaf. Cymerodd yr ysgol gamau gweithredol priodol mewn ymateb i'r materion allweddol. Cafodd y camau a gymerwyd effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion.
49. Mae gan yr ysgol nifer ddigonol o athrawon a staff ategol cymwys ar gyfer y nifer o ddisgyblion sydd yn yr Ysgol. Maent yn diweddarau eu medrau a'u gwybodaeth yn effeithiol.
50. Mae ystod eang o adnoddau addas a pherthnasol ar gael yn yr ysgol. Defnyddir rhain yn ystyriol i gyfarfod a gwahanol anghenion y disgyblion.
51. Cedwir a chynhelir yr ysgol yn dda, ac mae safon glanweithdra y uchel.
52. Mae'r pennaeth a'r CLI yn monitro gwariant yn gyson er mwyn sicrhau gwerth da am arian.

Argymhellion

53. Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 barhau i ddatblygu medrau ysgrifennu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm;

A2 wneud gwell defnydd o asesu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gynyddol ymwybodol o beth sydd angen iddynt wneud i wella eu gwaith;

A3. ddatblygu ymhellach y broses o fonitro cyflawniad disgyblion i atgyfnerthu'r hunan arfarnu a chynlluniau gwella ysgol.

Mae argymhelliad A3 eisoes yn flaenoriaethau yn y CDY.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig.

54. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

55. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---------|---------|---------|---------|---------|
| 6% | 88% | 6% | % | % |

56. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi yn llawer uwch na tharged Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru gyfan yn 2007 sef 98% yn foddhaol (Gradd3) a 65% yn dda neu'n well (Gradd2).

57. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

Yn CA1 a CA2, yn y pynciau a arolygwyd mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

| Pynciau | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|--------------------|--------------------|--------------------|
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Gwyddoniaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Dylunio Thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Cerdd | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg Gorfforol | Gradd 2 | Gradd 2 |

58. Gwna'r plant dan bump oed a'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol gynnydd da wrth gyrraedd y targedau a osodwyd gan yr ysgol. Mae pob unigolyn yn profi llwyddiant yn ei waith, beth bynnag fo'i allu, cefndir cymdeithasol neu ieithyddol. Mae disgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu.

59. Mae medrau allweddol disgyblion yn dda. Ar draws yr ysgol maent yn cyfathrebu'n dda gyda'i gilydd a gydag oedolion. Mae eu gallu i wrando yn dda iawn.

60. Mae galluoedd cyfathrebu a gwrando plant o dan bump yn datblygu yn dda. Siaradant yn hyderus, gwrandawant yn astud ar yr athrawon ac ar blant eraill. Maent wedi dechrau meistroli medrau darllen ac ysgrifennu. Mae nifer ohonynt yn dangos hyder ac yn gallu adnabod geiriau unigol allan o'u cyd-destun. Maent yn defnyddio eu galluoedd mathemategol a TGCh yn hyderus mewn ffyrdd

ymarferol sydd yn berthnasol i'w tasgau. Mae datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dangos cynnydd da, a'u perthynas gyda'i gilydd ac eraill, yn dda iawn.

61. Mae medrau allweddol disgyblion CA1 yn dda. Maent yn cyfathrebu'n dda gyda'i gilydd a gydag oedolion, yn gwrando'n astud iawn ac yn darllen ac ysgrifennu yn ôl eu gallu a'u hoedran. Mae'r disgyblion yn barod i gyfrannu yn ddeallus mewn sgwrs a thrafodaeth dosbarth, trwy ddefnyddio geirfa berthnasol. Maent yn defnyddio sgiliau mathemategol a thechnoleg gwybodaeth yn dda mewn amryw o gyd-destunau.
62. Yn CA2 mae gallu disgyblion i wrando yn datblygu'n dda iawn. Mae'r disgyblion yn hyderus wrth siarad Cymraeg gyda mynegiant clir. Mae gallu disgyblion CA2 i siarad yn Saesneg yn dda. Mae eu gallu i ddarllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dangos gwelliant cynyddol ar draws yr ysgol. Serch hynny mae nifer yn ansicr gyda geiriau anghyfarwydd. Mae gallu'r disgyblion i ysgrifennu i wahanol bwrpas ar draws yr ysgol yn dda. Serch hynny mae safonau llawysgrifen yn anwastad ac mae sgiliau sillafu nifer o ddisgyblion CA2 yn y Saesneg yn gyfyng. Datblyga'r disgyblion eu medrau mathemategol yn dda mewn gwahanol gyd-destunau a gwnânt ddefnydd da o'u sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ddatblygu eu gwaith mewn nifer o feysydd ar draws y cwricwlwm.
63. Ar ddiwedd CA1, yn 2006 roedd cyrhaeddiad y disgyblion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn ôl asesiad athrawon yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r awdurdod lleol. O feincnodi'r canlyniadau gydag ysgolion cyffelyb, sef rhai sydd a mwy na 8% ond llai na 16% o'r disgyblion a hawl i gael pryd o fwyd am ddim mae'r canlyniadau yn uwch na'r canolrif..
64. Ar ddiwedd CA2, yn 2006 roedd cyrhaeddiad y disgyblion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol gan gynnwys Saesneg yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. O feincnodi'r canlyniadau gydag ysgolion cyffelyb, mae'r canlyniadau yn y chwarterl uchaf
65. ystyried y data dros dreigl 3 mlynedd mae canlyniadau yn y ddau gyfnod allweddol yn gyson uwch nag ysgolion tebyg. Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol.
66. Mae plant dan bump ynghyd â disgyblion y ddau gyfnod allweddol, yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial. Gwna disgyblion o bob oedran gynydd da yn eu dysgu ac wrth iddynt gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Ymatebant yn hyderus i sialensiau newydd ac mae ganddynt ddeallusrwydd da o'r tasgau dan sylw.
67. Mae'r gymhwysedd dwyieithog yn nodwedd rhagorol o'r ysgol. Trwy'r ysgol mae sgiliau dwyieithrwydd disgyblion yn datblygu'n dda iawn gyda nifer helaeth o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gallu darllen mewn un iaith a thrafod yn yr iaith arall. Maent yn hyderus ddwyieithog. Mae hyn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda iawn o'u hardal leol.

68. Mae agweddau disgyblion at eu dysgu, a'r awch at gyfrannu a dangos diddordeb yn eu gwaith, yn gryfder yn yr ysgol. Maent yn gweithio yn ddiwyd ar eu tasgau ac yn canolbwyntio yn barhaol ac yn dda am gyfnodau hir. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y safonau a gyrhaeddir ganddynt.
69. Mae ymddygiad y disgyblion yn ragoriaeth. Rhoddant barch i'w hathrawon ac hefyd tuag at ymwelwyr a'r ysgol. Mae amryfaliaeth a chynhwysiant cymdeithasol yn cael eu hybu yn dda. Mae hyn yn rhoi seiliau cadarn i'r disgyblion ddatblygu'n aelodau cyfrifol o'r gymuned. Mae'r Cyngor Ysgol yn gweithredu yn eithriadol o dda; maent yn ddeallus iawn, ac yn gallu trafod eu penderfyniadau yn aeddfed a chyfrifol. Enghreifftiau o hyn yw egwyddorion y Farchnad Deg ac yn eu cyfathrebu ffurfiol a'r Cyngor Sir.
70. Mae lefelau presenoldeb yr ysgol ar draws y tri thymor llawn diwethaf ychydig dros 95%. Mae hyn yn cymharu yn dda gydag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb hefyd yn dda.
71. Mae'r disgyblion wedi datblygu sgiliau cydweithio da mewn parau neu o fewn grwpiau bychain. Maent yn defnyddio yr amser yn effeithiol ac yn sefydlu perthynas dda o fewn yr ysgol ac yn eu gweithgareddau o fewn y gymdeithas a'r gymuned.
72. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu sgiliau personol a chymdeithasol. Maent yn hynod o gwrtais ac yn dangos parch wrth ymateb yn frwdfrydig i athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol.
73. Mae'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o faterion cyfleon cyfartal. Trwy eu gwaith yng ngwersi addysg grefyddol a daearyddiaeth maent yn dangos ddealltwriaeth dda o barchu amrywiaeth a thraddodiadau cymdeithasol a diwylliannol.
74. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith a'r gweithle yn cael sylw da. Mae cyfraniad y disgyblion at fywyd y gymuned, gydag ystod eang o weithgareddau yn dda. Effaith hyn yw ymgyfoethogi y cwricwlwm a phrofiadau y plant.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig.

75. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---------|---------|---------|---------|---------|
| 17% | 75% | 8% | % | % |

76. Mae hyn yn cymharu'n dda â'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2005 i 2006. Yn genedlaethol y mae ansawdd y dysgu'n dda mewn 79% o wersi, gyda 17% o'r gwersi hynny'n meddu ar nodweddion rhagorol.

77. Gwelwyd addysgu da ym mhob dosbarth. Mae athrawon wedi sefydlu perthynas dda iawn gyda'r disgyblion yn seiliedig ar barch ddwy ffordd ac maent yn creu hinsawdd sy'n gydnaws â dysgu effeithiol.

78. Yn y gwersi a farnwyd yn eithriadol ceir:

- cyflwyniadau egniol a bywiog, cyfarwyddiadau clir a amrywiaeth pwrpasol o dechnegau a strategaethau addysgu;
- sgiliau holi eithriadol sy'n golygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth datblygu eu gallu i gyfathrebu; a
- chyfleodd i hyrwyddo sgiliau ymholi a dysgu mwy annibynnol ymysg y disgyblion

79. Yn y gwersi gyda nodweddion da ceir:

- gwybodaeth bynciol dda, paratoi trylwyr a chynllunio da;
- nod glir i'r wers, awyrgylch drefnus a chadarnhaol a rheolaeth dda ar amser;
- tasgau addas sy'n cyfateb i anghenion y gwahanol oedrannau o fewn y dosbarth;
- cefnogaeth dda gan y cymhorthydd dosbarth; a
- defnydd effeithiol o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu..

80. Yn yr ychydig wersi lle nodwyd diffygion ceir:

- gwahaniaethu annigonol i ymateb i anghenion pob disgybl; a
- diffyg pwyslais ar gywiro, gwella a datblygu sgiliau ieithyddol y disgyblion.

81. Mae gan yr ysgol bolisi asesu weithredol, a gweithdrefnau addas ar gyfer asesu, cofnodi ac adrodd ar gynnydd a chyflawniad disgyblion. Asesir gwaith yn y pynciau craidd yn dymhorol ac mae trefniadau ar gyfer asesu'r pynciau sylfaen yn cael eu cynnal yn flynyddol.
82. Mae y drefn o asesu, gan gynnwys asesiadau sylfaen y blynyddoedd cynnar, yn bodloni gofynion statudol ar gyfer asesu ac adrodd ar y CC.
83. Cedwir cofnodion da a manwl ar gynnydd academiaidd a phersonol pob disgybl. Mae'r drefn yma yn sicrhau fod datblygiad pob plentyn yn cael ei dracio yn gyson, gydag enghreifftiau o safon gwaith yn cael ei gadw i ddangos cynnydd.
84. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac yn aml. Er y ceir cyfres o dargedau gwelliant ar gyfer disgyblion yn y Gymraeg, nid yw'r arfer yma yn cael ei weithredu ar draws holl bynciau y cwricwlwm. Ni cheir awgrymiadau clir ar sut i wella ynghlwm a marcio llyfrau gwaith y disgyblion. Er fod y disgyblion yn rhannu barn ar ddiwedd gwrs ac yn cyfrannu at asesu eu gwaith ar lafar, nid yw'r drefn yma wedi ei datblygu'n ddigonol i gynnig targedau ysgrifenedig sy'n arwain tuag at adnabod llwybrau gwelliant penodol. Nid yw cyfraniad y disgyblion tuag at asesu wedi eu datblygu yn gyflawn hyd yn hyn.
85. Mae'r ysgol yn cofnodi canlyniadau disgyblion mewn profion darllen safonol a hefyd profion darllen meini prawf. Mae hyn yn helpu i fonitro'u cynnydd, ac i dargedu agweddau penodol ar gyfer gwelliant yn y sgiliau elfennol.
86. Mae gweithdrefnau ar gyfer adnabod ac asesu disgyblion ag AAA yn dda a gosodir targedau penodol, amserol, a realistig i'r disgyblion yn y Cynlluniau Addysg Unigol.
87. Cydymffurfia'r ysgol yn llawn â'r gofynion statudol parthed adrodd yn ôl i'r rhieni ac asiantaethau eraill. Mae'r adroddiadau blynyddol a gynhyrchir i'r rhieni ar gynnydd eu plant yn rhoi darlun priodol o gynnydd a chyraeddiadau'r disgyblion.
88. Mae'r ysgol yn trefnu nosweithiau lle caiff y rhieni drafod gwaith a chynnydd eu plant, ddwy waith y flwyddyn. Caiff pob rhiant fynediad llawn i ymweld a'r ysgol unrhyw adeg i drafod unrhyw bryder a allasai godi ynglŷn a datblygiad eu plant. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi y gwybodaeth y maent yn eu cael am gynnydd eu plant, ynghyd ac awgrymiadau ar sut i wella a'u helpu adref.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

89. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i'r dyfarniad Gradd 2 a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Mae'r tîm o'r farn nad yw'r ysgol wedi rhoi llawn ystyriaeth i effaith cadarnhaol y cyfoeth o brofiadau mae'r disgyblion yn eu derbyn o fewn eu cymuned a'r amgylchedd leol.

90. Mae'r ysgol yn darparu mynediad cyfartal at addysg i bob disgybl drwy gwricwlwm cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn cwrdd a gofynion statudol.
91. Mae ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn dda ac yn briodol i'w hanghenion. Mae'r disgyblion yma yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant.
92. Mae'r cynllunio yn dangos cysylltiadau da rhwng agweddau a ddysgwyd eisoes gyda dilyniant perthnasol, ynghyd a nodau chlir a champau strwythuredig wedi eu nodi a'u cynnwys yn y gwersi. Mae gwaith gwahaniaethol addas yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau o fewn yr un dosbarth. Gwelwyd enghreifftiau da, mewn rhai gwersi, o addasu tasgau ar gyfer galluoedd disgyblion. Serch hynny, nid yw'r arfer hyn yn gyson.
93. Mae Cynlluniau Canolig yn dangos fod agweddau o'r medrau allweddol yn cael eu cynnwys o fewn gwersi ar draws y Cwricwlwm. Gwneir defnydd effeithiol o gynnwys y medrau allweddol o fewn gwersi penodol, gyda'r disgyblion yn cael nifer o gyfleon perthnasol i gydweithio, datrys problemau a defnyddio sgiliau chyfathrebu a mathemategol mewn cyd-destun priodol. Gwneir defnydd eang o TGCh, gan ehangu galluoedd y disgyblion i ymchwilio ymhellach i bynciau gan gyfoethogi eu gwybodaeth ac ehangu eu gorwelion. Gwneir defnydd effeithiol o wahanol agweddau o'r cwricwlwm sydd yn cael ei gynnig ar y we.
94. Mae gan yr ysgol amrediad dda o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol, megis Yr Urdd, ffeiriau, gwasanaethau, cyngherddau, a llu o weithgareddau eraill. Mae'r ysgol yn rhoi profiadau da i'r disgyblion drwy drefnu cyfraniadau i achlysuron cymunedol ac i elusennol. Mae hyn yn un o ragoriaethau'r ysgol gyda enghreifftiau rhagorol o ymestyn allan i'r gymuned a chynnwys pentrefi yr ardal yng ngweithgareddau'r ysgol. Mae hyn yn sail i ehangu a chyfoethogi profiadau dysgu y disgyblion y tu allan i'r dosbarth, drwy gynnal a chynnwys pentrefi yr ardal yng ngweithgareddau yr ysgol.
95. Cyfranna y rhieni hefyd, yn cynnwys aelodau o'r gymuned, yn hael, at waith yr ysgol. Mae "Cymdeithas Rhieni ac Athrawon" yn weithgar iawn, ac yn codi arian sylweddol ar gyfer yr ysgol. Mae offeiriadon Esgobaeth Bangor hefyd yn gynhaliol iawn. Rhoddir sylw dda hefyd i achosion haeddiannol arall.
96. Mae profiadau y disgyblion yn cael eu cyfoethogi drwy'r amrywiaeth o ymwelwyr a'r ysgol, gan gynnwys aelodau o'r gymuned, mudiadau elusennol, a'r heddlu.
97. Mae ymweliadau a manau hanesyddol a daearyddol cyfagos hefyd yn ychwanegu at brofiadau dysgu ymarferol y disgyblion, ac mae astudiaethau y Farchnad Deg yn rhagori. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang ac hefyd brawdgarwch rhyngwladol. Mae y cysylltiadau yma yn ymglyfoethogi profiadau addysgol a datblygiad personol y disgyblion, ac yn eu paratoi i ddyfod yn aelodau cyfrifol o'i gymuned. Tystiolaeth amlwg o hyn yw aeddfedrwydd, hyder a chwarteisi y disgyblion ar frig yr ysgol.

98. Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae gwasanaethau boreol yn cynnwys cyfraniadau gan y disgyblion ac yn cynnwys negeseuon moesol, cadarnhaol. Mae'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio a gofynion statudol. Fodd bynnag collir cyfleon myfyrdod i'r disgyblion, lle y gellir datblygu yr ymdeimlad o ryfeddod yn yr amgylchedd ac ar agweddau dynol.
99. Mae gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn cynnig cyfleon o ymwybyddiaeth o werthfawrogi diwylliannau leol, a chenedlaethol, ac hefyd i ddangos parch at gredoau eraill, yn ogystal a chynnig nifer o gyfleon i barchu a gwerthfawrogi diwylliannau eraill.
100. Mae cyfraniadau nifer helaeth o'r disgyblion i weithgareddau chwaraeon, ynghyd ac ysgolion lleol eraill, yn cyfoethogi eu profiadau cymdeithasol a moesol.
101. Mae'r cysylltiadau gyda'r rhieni hefyd yn gadarn. Mae safon y cyfathrebu, y cyfarfodydd, adroddiadau, llythyru, yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau iddynt, yn dda. Mae'r Cytundeb Cartref ac Ysgol ac hefyd Llawlyfr y Rhieni, yn ymateb a'r gofynion. Mae cysylltiadau a phartneriaeth dda gydag ysgolion cynradd y dalgylch ac mae'r Uned Anghenion Arbennig, sydd yn ran o'r ysgol, yn ymestyn hyn yn bellach. Mae'r drefniadaeth ar gyfer trosglwyddo disgyblion B6 i Ysgol Botwnnog, gydag ymweliadau gan athrawon pontio yn dda. Darperir cyfleoedd i fyfyrwyr a'r brofiadau gwaith o'r ysgol uwchradd, Coleg Meirion Dwyfor, Coleg Menai, ac hefyd i ddarpar athrawon o Brifysgol Cymru, Bangor. Mae'r trefniant yma yn dda.
102. Mae'r ysgol yn annog nifer o'r disgyblion i ymuno a gweithgareddau a chlybiau yn y gymuned. Mae hyn yn hybu a datblygu eu sgiliau yn barhaol y tu allan i'r Ysgol.
103. Mae'r ysgol ag amrediad dda o gysylltiadau a busnes i hyrwyddo addysg cysylltiedig a gwaith ac hefyd canfyddiadau galwedigaethol. Rhoddir sylw da hefyd i Fenter.
104. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu medrau dwyieithog yn rhagorol. Mae'r ysgol yn sicrhau fod pob plentyn, beth bynnag eu cefndir, yn datblygu sgiliau dwyieithrwydd i'r eithaf. Ceir pob cyfle i ehangu mynegiant ac mae'r ysgol yn trefnu gwersi ychwanegol ar gyfer disgyblion sydd wedi cyrraedd o ardaloedd Seisnig eu naws a iaith. Mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn rhagorol, ac yn cael ei amlygu yn hyblygrwydd y disgyblion i drawsieithu yn hyderus.
105. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael lle amlwg iawn mewn nifer o weithgareddau yr ysgol, ac mae gwybodaeth y disgyblion o'u hamgylchedd a'u cynefin yn rhagorol. Fodd bynnag nid yw eu hymwybyddiaeth o hanes, diwylliant a nodweddion penodol ardaloedd ymhellach i ffwrdd yng Nghymru, llawn cystal.
106. Mae gan yr ysgol bolisiau gofynnol ar gyfer cyfleoedd cyfartal, gwrth hiliaeth, asesiadau risg, amddiffyn plant, anabledd, hygyrchedd anableddau a'r tebyg. Maent oll yn gynhwysfawr, a llwyr weithredol.

107. Mae'r sylw a roddir i ddatblygiad cynaliadwy yn dda, gyda sylw i'r amgylchfyd ac ailgylchu. Mae elfennau o ragoriaeth yn yr astudiaeth ar ailgylchu yn yr ymweliad i safle ailgylchu yng Nghaernarfon a'r gwaith cwricwlaidd ymestynnol a ddilynodd. Mae eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd eang gyda elfennau o ragoriaeth oherwydd eu gwybodaeth drylwyr o egwyddorion y Farchnad Deg. Cyfrannant hefyd yn hael at elusennau. Maent yn ymwybodol iawn o'r byd ac amgylchiadau trafferthus.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

108. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Mae holl ethos yr ysgol yn hyrwyddo gofal a chefnogaeth arbennig i'r disgyblion

109. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer plant di-Gymraeg, sydd yn cyrraedd yn ystod Blwyddyn Ysgol, yn ragorol. Trefnir cwrs trochi mewn canolfan iaith lleol cyn dechrau yn yr Ysgol, ac fe gyfoethogir gallu y disgyblion newydd o'r Gymraeg, drwy sicrhau eu bod yn derbyn gwersi ychwanegol. Mae effaith y ddarpariaeth yma i'w weld yng ngallu y disgyblion i gyfathrebu yn hyderus drwy y Gymraeg ac yn eu gallu i ddefnyddio sgiliau dwyieithrwydd gyda'r staff a'r disgyblion eraill.

110. Mae holl staff yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i sefydlu cymdeithas gydweithredol a hyderus sydd yn arwain at gymuned glos a hapus. Mae hyn yn amlygu ei hun yn y gofal a diogelwch sydd yn cael ei roi i'r plant. Sicrha'r staff fod y plant yn cael eu hebrwng yn ddiogel i'r gwahanol fysiau sydd yn eu haros ar ddiwedd y dydd y tu allan i'r ysgol.

111. Mae'r ysgol yn cydweithio mewn partneriaeth gyda'r rhieni a gofalmwyr yn dda iawn, gyda llawer o'r rhieni yn ystyried fod yr ysgol yn dda am wrando arnynt ac ystyried eu barn. Mae cysylltiadau agos a chlos gyda'r rhieni a hyn yn amlygu ei hun gyda'r cydweithrediad agos rhyngddynt a'r gefnogaeth mae'r ysgol yn ei gael drwy Gymdeithas y Rhieni.

112. Mae'r ysgol wedi sicrhau fod rhieni plant bach sydd ar fin cychwyn yn yr Ysgol yn cael ymweld a'r Ysgol cyn anfon eu plant yno. Trefnir dyddiau croeso i'r rhieni a'u plant ac mae Llawlyfr yr Ysgol ar gael i bob rhiant newydd sydd yn cynnwys gwybodaeth eang a hanfodol am yr Ysgol.

113. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar, gyda sylw dda i oddefgarwch, brawdgarwch a charedigrwydd. Oherwydd hyn teimla y disgyblion yn gysurus yn eu gallu i droi at unrhyw aelod o'r staff am gyfarwyddyd neu gymorth. Mae goruchwyliaeth amser egwyl ac ar ddechrau a diwedd dydd yr ysgol yn dda. Rhoddir sylw hefyd i drafnidiaeth ar y ffordd fawr ar ddechrau a diwedd dydd. Mae'r ysgol yn bryderus am hyn, ond mae wedi gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau cydweithrediad yr asiantaethau sydd yn uniongyrchol gyfrifol am y ffordd fawr, sef y Cyngor Sir a'r Heddlu.

114. Mae'r polisïau a'r holl weithdrefnau gofynnol yn eu lle. Maent oll yn gynhwysfawr ac wedi eu llunio yn dra ofalus. Mae'r cofrestrau a'r weinyddiaeth gysylltiedig, gyda chofnodion trylwyr a llythyrau oddi wrth y rhieni, yn ymateb i ofynion Cylchlythyr 3/99 LLCC.
115. Ceir polisïau a gweithdrefnau i sicrhau lles, iechyd a diogelwch y disgyblion, ac mae materion sydd yn codi pryder yn cael sylw union ac ebrwydd. Mae asesiadau risg yn cael sylw priodol yn ôl canllawiau'r AALI. Mae diogeledd yr adeilad hefyd yn effeithiol, ac mae'r athrawon yn sicrhau fod adnoddau diogel yn cael eu defnyddio yn y gwersi.
116. Mae rhai o'r athrawon wedi dilyn cyrsiau Cymorth Cyntaf tystysgrifol, ac mae llawer o weithgareddau yr Ysgol, megis cynllun bwyta'n iach, a Chynllun Rhedeg Milltir yn cryfhau adnabyddiaeth y disgyblion o faterion lles a iechyd.
117. Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau clir a phriodol yn eu lle ar gyfer amddiffyn plant, ynghyd a dau enwebai sydd a chyfrifoldeb o'r maes yma yn yr ysgol.
118. Mae'r ddarpariaeth ysgol i ymateb a disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda, ac yn ymateb a gofynion y Cod Ymarfer AAA Cymru.
119. Mae Uned Addysg Arbennig y dalgylch wedi ei leoli yn yr ysgol, gyda disgyblion ac Anghenion Arbennig yn cael eu cyfeirio yno gan y Sir ar gyfer cymorth ychwanegol bob bore. Mae'r disgyblion yn derbyn arweiniad a chymorth o safon uchel ac yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith. Mae cydweithio agos rhwng staff yr Uned a staff yr ysgol, yn ogystal a'r CAAA, a hefyd gyda staff yr ysgolion sydd yn bwydo i'r Uned. Caiff datblygiad pob plentyn ei drafod gyda staff eu hysgolion, gyda staff yr Uned yn ymwybodol o gynnydd y disgyblion yma yn erbyn eu targedau o fewn gweithgareddau yn eu hysgolion lleol.
120. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o brofion safonol a phrofion meini prawf i gasglu adnabyddiaeth o gyraeddiadau a galluoedd. Defnyddir y wybodaeth yma yn dda i gynllunio rhaglenni gwelliant gefnogol ar gyfer y disgyblion.
121. Mae'r Cynlluniau Addysg Unigol ar gyfer disgyblion ac AAA, yn glir a phenodol ac yn cynnwys targedau amserol a mesuradwy sydd yn ddealladwy i'r disgyblion a'u rhieni. Mae'r gefnogaeth ychwanegol, drwy arweiniad y CAAA yn cyfeirio yn benodol at gynnwys targedau y CAU yng nghynlluniau gwersi er mwyn cyfarfod ac anghenion y disgyblion. Canolbwyntir yn bennaf ar dargedau yn ymwneud a llythrennedd a rhifedd. Serch hynny, nid oes digon o ehangder yn narpariaeth gwahaniaethol o fewn rhai gwersi er mwyn cynnwys y targedau yn gyson mewn gwersi prif ffrwd.
122. Mae cymhorthyddion yn gweithio yn effeithiol gyda'r disgyblion ac yn ymwybodol o dargedau y CAU.
123. Mae gwaith y disgyblion yn cael ei adolygu yn barhaol a'r cynnydd yn cael ei gofnodi yn gyson. Mae y rhieni yn cael eu cynnwys ym mhob adolygiad o'r

cynlluniau ac yn mynychu yr ysgol i drafod adolygiadau blynyddol pan fo plentyn ar ddatganiad o AAA. Mae adroddiadau AAA i'r rhieni yn cyfarfod a'r gofynion statudol

124. Mae gan yr ysgol strwythur i adnabod disgyblion uwch eu gallu, gyda threfniant drwy waith estynedig addas ar gael pan fo'n berthnasol. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn darpariaeth wahaniaethol o'r math yma ar hyn o bryd.
125. Mae'r ysgol yn cydweithio yn effeithiol gyda Seicolegydd Addysg y Sir ac asiantaethau cymorth eraill, er mwyn adnabod anghenion y disgyblion. Daw aelod dynodedig ar gyfer AAA o'r Corff Llywodraethol i'r ysgol yn gyson i drafod y darpariaeth ac mae'r CAAA yn cael amser penodol i gydlynu holl agweddau perthnasol. Mae hyn yn sicrhau fod trefniadau da ac addas yn cael eu darparu, ynghyd a chymorth priodol, ar gyfer y disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr Ysgol.
126. Mae'r Ysgol wedi sefydlu strwythur glir i ymdrin ac unrhyw ymddygiad sydd yn debygol o amharu ar gynnydd y disgyblion. Mae'r staff wedi dilyn cwrs HMS perthnasol ac yn gweithredu'r drefn gyda chysondeb. Ceir rheolau dosbarth realistig a pherthnasol ac mae ymddygiad dda yn cael ei ganmol a'i ddathlu. Caiff tystysgrif Seren yr Wythnos ei gyflwyno i ddisgyblion o bob dosbarth am weithgareddau neu ymddygiad penodol canmoladwy. Mae y disgyblion yn ymwybodol o'r camau perthnasol sydd yn cael eu dilyn os oes ymddygiad annerbyniol, ac mae eu dealltwriaeth o'r strategaethau yma yn sicrhau mai ond anaml ydi'r eithriadau. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi cynllun y Ffrindiau Ffeind sydd yn sicrhau fod pob plentyn yn cael gofal gan ffrindiau yn o gwmpas yr ysgol ac yn eu helpu i barchu a gofalu am ei gilydd. o gamymddwyn yn yr ysgol.
127. Mae y gweithdrefnau gogyfer ymddygiad, disgyblaeth a gwrth fwlian hefyd yn gadarn. Nid oes tystiolaeth o gwbl o achosion ymosodol, a cadarnhawyd hyn drwy drafodaethau gyda'r Cyngor Ysgol. Maent yn hynod ddoeth yn y modd y gallent wahaniaethu rhwng fan gecru ac ymddygiad annerbyniol. Yn ychwanegol fe adlewyrchir gan ddisgyblion B6 ar ei gyrfa yn yr ysgol gyda balchder a gwerthfawrogiad.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig.

128. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
129. Mae nodau a pholisïau priodol wedi eu llunio sy'n canolbwyntio ar anghenion disgyblion ac ar greu'r amodau gorau posibl i bob unigolyn ddatblygu a ffynnu. Maent yn cael eu hadlewyrchu'n dda yng ngwaith ac ethos yr ysgol. Perchir barn disgyblion o bob oedran a thrwy'r Cyngor ysgol, caiff disgyblion gyfleodd da i ddylanwadu ar nifer o agweddau ar fywyd yr ysgol.
130. Mae'r pennaeth, y Corff Llywodraethol a'r staff yn darparu arweiniad eglur i ddatblygiad yr ysgol. Cydrennir disgwyliadau uchel a gwerthoedd cyffredin ynghylch dysgu, ymddygiad, cydberthnasau a chyfleoedd cyfartal. Mae arweiniad cadarnhaol a chydwybodol y pennaeth yn cydlynu ymdrechion y tîm dysgu gan roi ymdeimlad o bwrpas cyffredin i'w waith.
131. Rhoddir ystyriaeth dda i flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r ysgol wedi ymrwymo ei hun i'r Cynllun Ysgol Werdd. Llwyddwyd i ennill achrediad Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn Nhachwedd 2005.
132. Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol parthed lleihau baich gwaith athrawon ac ailfodelu'r gweithlu. Mae'r trefniadau yn effeithiol.
133. Mae gan yr ysgol ddull priodol o osod targedau a dadansoddir canlyniadau CC yn ofalus i adnabod cryfderau a gwendidau. Mae'r targedau ysgol gyfan a bennir yn dargedau cyraeddadwy a realistig ac wedi eu selio ar berfformiad tebygol pob disgybl. Mae strategaethau effeithiol wedi'u sefydlu ar gyfer cyrraedd y targedau a osodir.
134. Ysgwydda'r staff gyfran dda o gyfrifoldebau dros agweddau o'r cwricwlwm. Maent yn cyfrannu'n effeithiol i ddatblygiad yr ysgol a darparant arweiniad a chefnogaeth i'w cyd athrawon. Mae trefniadau rheoli perfformiad addas wedi eu sefydlu ar gyfer gwella medrau a hyfedredd athrawon. Darperir cyfleoedd da i staff roi sylw i'w datblygiad proffesiynol ac i fynychu cyrsiau priodol. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu ymhellach eu rôl parthed monitro cyflawniad disgyblion.
135. Mae nodweddion da i swyddogaeth y Corff Llywodraethol yn natblygiad strategol yr ysgol. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o'u rôl. Maent yn hynod o gefnogol i'r pennaeth ac yn adnabod yr ysgol yn dda. Yn ddiweddar rhoddwyd cyfrifoldeb i aelodau unigol am oruchwylio meysydd penodol o'r cwricwlwm a thrwy hyn ac adroddiadau'r pennaeth maent yn dod yn gynyddol wybodus am y ddarpariaeth addysgol.

136. Mae'r Corff Llywodraethol yn bodloni'r holl ddyletswyddau cyfreithiol a osodir arnynt ac mae'r polisïau perthnasol yn eu lle.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig.

137. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

138. Mae diwylliant o hunan arfarnu yn datblygu o fewn yr ysgol. Mae'r pennaeth, staff a'r Corff Llywodraethol yn dangos ymrwymiad llwyr i safonau uchel ac yn gynyddol weithredol yn y broses o hunan arfarnu. Maent yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol ac agweddau i'w datblygu.

139. Mae gweithdrefnau hunan arfarnu da wedi eu sefydlu. Defnyddir nifer o ddulliau o fewn y drefn sy'n cynnwys, ymweld â gwersi gan gydlynwyr a'r pennaeth, edrych ar waith disgyblion, dadansoddi canlyniadau profion ac ymweliadau ymgynghorwyr. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i gryfhau'r broses gan ganolbwyntio'n fwy penodol ar arfarnu safonau a gyflawnir gan y disgyblion a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella.

140. Caiff data perfformiad ei ddadansoddi'n ofalus ac fe wneir defnydd effeithiol o'r wybodaeth wrth bennu blaenoriaethau.

141. Mae rôl weithredol gan yr holl staff a'r Corff Llywodraethol. Nid oes ar hyn o bryd drefniadau ffurfiol i sicrhau barn rhieni a'r gymuned ehangach. Mae'r disgyblion yn cael cyfle i roi barn trwy'r Cyngor Ysgol.

142. Mae'r adroddiad hunan arfarnu a luniwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn glir ac yn gynhwysfawr. Mae'n nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu cyd-fynd â barn y tîm arolygu. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol mewn chwech o'r saith cwestiwn allweddol. Yn y cwestiwn arall dyfarnwyd gradd uwch.

143. Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol yn ddogfen ddefnyddiol ar gyfer rhoi cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. Nodir y dulliau gweithredu o dan y gwahanol flaenoriaethau a'r deilliannau disgwylidig ynghyd a'r monitro arfaethedig. Dynodir hefyd gyfrifoldebau gweithredu i unigolion a chlustnodir adnoddau ar gyfer cefnogi'r datblygiadau. Mae'r ysgol yn ymwybodol fod angen cyswllt mwy clir rhwng deilliannau'r hunan arfarnu a'r blaenoriaethau a bennir yn y CDY.

144. Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolwg diwethaf. Cymerodd yr ysgol gamau gweithredol priodol mewn ymateb i'r materion allweddol. Cafodd y camau a gymerwyd effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

145. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
146. Mae gan yr ysgol nifer ddigonol o athrawon a staff ategol ar gyfer y nifer o ddisgyblion sydd yn yr Ysgol. Mae eu cymwysterau a'u arbenigedd ynghyd yn sicrhau fod pob agwedd o'r Cwricwlwm yn cael ei ddysgu i'r eithaf o fewn gweithgareddau yr ysgol. Mae arbenigedd priodol ar gael i gyfarfod ac anghenion disgyblion ac AAA. Ceir cyfraniadau gwerthfawr gan gynorthwywyr yr Ysgol, gan iddynt gydweithio yn dda ac effeithiol gyda'r athrawon i sicrhau cymorth penodol i'r disgyblion, fel y bo angen.
147. Mae'r staff yn mynychu cyrsiau Hyfforddiant Mewn Swydd perthnasol sydd yn cael eu trefnu gan yr AALI, er mwyn diweddarau eu medrau a'u gwybodaeth o ddatblygiadau cyfoes ym myd addysg. Ymddengys gwerth y rhain yn yr ystod o adnoddau a dulliau dysgu cyfoes sydd yn cael eu defnyddio yn yr ysgol.
148. Mae ystod eang o adnoddau addas a pherthnasol ar gael yn yr ysgol. Defnyddir rhain yn ystyriol i gyfarfod a gwahanol anghenion y disgyblion, ac fe gyfoethogir eu profiadau addysgol trwy nifer o ymweliadau allanol i'r gymuned.
149. Mae llyfrgell ganolog yn rhoi mynediad at ystod eang o lyfrau darllen a rhai ymchwiliol. Mae'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o adnoddau cyfrifiadurol, a chwricwlwm ar-lein, ar draws holl bynciau'r Cwricwlwm. Mae hyn yn cyfoethogi sgiliau y disgyblion i ddefnyddio ffynonellau ymchwil ac yn cyfrannu yn dda at ddatblygiad eu gallu i weithio yn annibynnol.
150. Cedwir a chynhelir yr ysgol yn dda, ac mae safon glanweithdra y uchel. Mae'r buarth yn addas ac eang gyda wyneb dda. Mae lle deniadol ac ar wahan i'r Babanod. Rhoddir sylw manwl i unrhyw fater adeiladol sydd yn codi pryder. Mae'r maes chwarae yn ddefnyddiol, gyda terfynau sicr. Mae amgylchfyd yr ysgol yn hyfryd. Rhoddir sylw priodol i ddiogeled. Mae gofod yr adeilad yn llwyr ddigonol.
151. Mae'r pennaeth a'r CLI yn monitro gwariant yn gyson. Maent hefyd yn casglu barn ynglŷn a defnydd yr ysgol o'i hadnoddau, a gwirio eu effeithiolrwydd er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn cael mynediad i adnoddau a'r ddarpariaeth orau posibl. Serch hynny mae angen mireinio y drefn o asesu effeithiolrwydd rhai adnoddau er mwyn adnabod y blaenoriaethu yn fwy clir. Caiff y cyllid sylw gofalus er mwyn hwyluso'r broses o bwrcasu adnoddau pellach ar gyfer yr Ysgol.
152. Mae pob aelod o'r staff yn cael amser priodol i asesu, chynllunio a darparu gwaith ac mae'r drefn yma yn sicrhau fod ansawdd y cynllunio yn arwain at safonau da o addysgu o fewn yr Ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o'r adnoddau

sydd ar gael gan weithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys y Seicolegydd Addysgol, ac athrawon ymgynghorol.

153. Yn sgil safonau addysgol a chymdeithasol y disgyblion, y gofal, a'r profiadau gwerthfawr maent yn eu derbyn, ynghyd ac arweiniad glir, mae Ysgol Pont y Gof yn rhoi gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Mathemateg

Cyfnod Allweddol 1 : Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2 : Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

154. Mae gan ddisgyblion CA1 ddealltwriaeth sicr o fondiau a phatrymau rhif hyd at 20. Maent yn adio ac yn tynnu yn gywir gan gyfrif ymlaen ac yn ôl mewn camau o wahanol faint. Gallant wahaniaethu rhwng odrifau ac eilrifau. Mae gan y disgyblion hynaf wybodaeth dda am werth lle ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio rhifau hyd at gant ac ymhellach.
155. Maent yn adnabod gwerth gwahanol ddarnau o arian ac yn eu defnyddio'n gywir i gyfrifo a chofnodi. Maent yn meddu ar wybodaeth dda o iaith fathemategol ac yn defnyddio termau fel mwy na, llai na, llawn a gwag yn gywir. Mae'r rhan fwyaf yn rhagfynegi'n synhwyrol wrth fesur gwahanol wrthrychau yn y dosbarth.
156. Gallant adnabod ac enwi nifer o siapiau 2 a 3 ddimensiwn a thrafod eu priodweddau.
157. Gallant arddangos gwybodaeth a gasglwyd ganddynt ar ffurf graffiau a thablau gyda'r mwyaf galluog yn dadansoddi'r graffiau'n hyderus.
158. Yn CA2, mae'r disgyblion yn adeiladu'n briodol ar waith CA1 ac yn meddu ar ddealltwriaeth o batrymau rhif. Maent yn fedrus wrth gyfrif yn y pen ac mae eu gwybodaeth o'u tablau yn dda iawn. Yn ôl eu hoed a'u gallu medda'r disgyblion ar ddealltwriaeth dda o werth lle gan drin rhifau hyd at 1000 a thu hwnt. Datblygant ddealltwriaeth gadarn o'r bedair rheol fathemategol gan ddefnyddio ystod o strategaethau cymwys.
159. Mae gwybodaeth disgyblion o siapiau dau a thri dimensiwn yn datblygu ymhellach wrth iddynt symud drwy'r cyfnod allweddol ac maent yn adnabod ac yn enwi nodweddion ystod dda o siapiau'n llwyddiannus. Defnyddiant raglen LOGO'n hyderus i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o briodweddau geometregol wrth greu nifer o siapiau'n fedrus.
160. Mae eu dealltwriaeth o onglau'n dda ac maent yn meddu ar eirfa briodol i'w henwi'n gywir. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o drawsffurfio siapiau

gan gylchdroi siapiau o gwmpas pwynt i gyfeiriad arbennig drwy 90 neu 45 gradd.

161. Maent yn ffurfio ac yn dehongli amrywiol graffiau ar bapur ac ar y cyfrifiadur gan ddefnyddio ystod dda o ddata.

Diffygion

162. Does dim diffygion arwyddocaol.

Gwyddoniaeth

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2 Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 2: Gradd 2 Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

163. Mae disgyblion CA1 yn hyderus wrth nodi sut y mae hadau yn cael eu ffrwythloni, gan ddefnyddio termau ac ymadroddion addas yn eu esboniadau. Maent yn adnabod y gwahaniaeth rhwng pethau byw a rhai nad ydynt yn fyw, ac yn eu gwahanu yn gywir. Mae'r mwyafrif yn hyderus wrth ddangos y gellir newid siâp a ffurf rhai defnyddiau wrth eu plygu. Gall y disgyblion hynaf egluro beth ydi nodweddion arbrawf deg, a chynnig syniadau perthnasol i addasu neu wella y dull o gynnal arbrawf.

164. Gall disgyblion iau CA2 esbonio yn ddeallus sut y gellir newid defnyddiau trwy eu cynhesu, oeri neu eu coginio, ac na ellir newid pob un ohonynt yn ôl i'w cyflwr gwreiddiol. Gallant ddarllen a mesur tymheredd â thermomedr, a chymharu gwres dwr wedi ei gynhesu mewn gwahanol gwpanau.

165. Mae'r disgyblion hynaf CA2 yn cymharu golau kannwyll â golau fflach lamp, a nodi effaith y goleuni yma ar adlewyrchiant yn ofalus. Gall y mwyafrif greu a nodi arbrawf benodol i benderfynu pa ddefnyddiau fyddai 'r gorau i wneud llenni addas ar gyfer ystafell wely babi. Maent yn cynnig rhesymau am eu penderfyniadau terfynol yn ddeallus.

166. Gall nifer helaeth o'r disgyblion hynaf drafod Cylch Bywyd y planhigyn blodeuol, gan ddefnyddio geirfa berthnasol sydd yn dangos eu dealltwriaeth o brosesau megis peilliad, gwasgaru hadau, egino a thyfiant. Mae nifer dda yn egluro'n fanwl rôl y gwenyn yn y broses o beillio.

167. Gallant gofnodi defnyddioldeb offer cofnodi tywydd gan ddangos dealltwriaeth glir o swyddogaeth y gwahanol offer.

Diffygion

168. Does dim diffygion arwyddocaol.

Dylunio a thechnoleg

Cyfnod Allweddol 1 : Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 2 : Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

169. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r broses gynllunio. Byddant yn cyfleu eu syniadau drwy luniadau, yn nodi'r deunyddiau sydd eu hangen ac yn rhestru'r camau a gymerwyd yn ystod y broses gwneud. Maent yn arddangos dealltwriaeth cynyddol o sut mae defnyddio offer a chyfarpar yn ddiogel.
170. Yn CA1 mae'r disgyblion yn ymateb i'w tasgau mewn modd sy'n briodol i'w hoed a'u gallu ac yn adeiladu ar fedrau blaenorol. Mae eu gallu i fesur, marcio, torri a siapio ystod o ddeunyddiau gan ddefnyddio offer a thechnegau priodol yn datblygu'n dda.
171. Maent yn ymwybodol fod deunyddiau'n ymddwyn mewn gwahanol ffyrdd a bod nifer o dechnegau ar gyfer cysylltu a chryfhau gwahanol deunyddiau. Maent yn defnyddio'r wybodaeth honno'n gelfydd wrth adeiladu tŷ i'r tri mochyn bach ac wrth ymchwilio technegau addas ar gyfer gwneud cadair i tedi. Gallant gofnodi eu syniadau drwy ddefnyddio geirfa addas, lluniau a brasluniau.
172. Yn CA2 mae'r disgyblion yn dylunio a gwneud ystod dda o gynhyrchion gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau a chydannau. Maent yn ymwybodol o'r broses ddylunio ac yn medru trafod yr elfennau sylfaenol o ymchwil, cynllunio, dylunio a gwneud yn synhwyrol.
173. Mae disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn ehangu eu dealltwriaeth o'r broses drwy ymchwilio gwahanol fathau o geiliogod gwynt ar y we cyn creu braslun anodedig a rhestr o ddefnyddiau fydd eu hangen i'w gynhyrchu. Maent yn medru defnyddio ystod o ddeunyddiau a thechnegau i greu cerbydau syml sy'n cynnwys cylchrediad trydanol i'w gyrru.
174. Mae disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn arddangos dealltwriaeth dda o sut mae modd defnyddio mecanweithiau syml gan gynnwys liferi a camiau i greu gwahanol fathau o symudiad wrth greu cardiau a theganau ar gyfer y Pasg. Datblygant eu dealltwriaeth ymhellach drwy ddefnyddio gylchedau trydanol a niwmateg i greu symudiad addas wrth greu modelau o wahanol gerbydau. Maent yn ymwybodol fod angen weithiau dod o hyd i ffordd arall o wneud os bydd yr ymgais gyntaf yn methu.

Diffygion

175. Does dim diffygion arwyddocaol. Serch hynny nid yw sgiliau disgyblion CA2 i gofnodi'r broses o wneud a gwerthuso wedi datblygu'n ddigonol.

Daearyddiaeth

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2 Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 2: Gradd 2 Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

176. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion CA1 adnabod a nodi nodweddion tywydd yn gywir mewn rhannau penodol o'r Byd ac egluro yn glir, y rheswm am y gwahaniaeth rhwng ardaloedd poeth ac oer. Maent yn arddangos adnabyddiaeth dda o'u cynefinoedd ac yn adnabod enwau anifeiliaid ac adar maent yn eu gweld yn lleol. Dangosant ddealltwriaeth da wrth gymharu tai a welir ym Motswana a rheini maent yn byw ynddynt eu hunain yn lleol. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod yn gywir, enwau anifeiliaid sydd yn byw ym Motswana a'u cymharu a'r anifeiliaid sydd i'w gweld yn eu cynefin lleol ym Mhen Llyn.
177. Gall y mwyafrif o ddisgyblion CA1 greu brawddegau neu ymadroddion syml a chlir, sydd yn nodi yn gywir, y tebygrwydd a'r gwahaniaeth rhwng nodweddion Parc Cenedlaethol ym Motswana , a gwarchodfa Natur, Pwllheli.
178. Yn CA2, gall y rhan fwyaf o'r disgyblion iau adnabod y pedwar pwynt cyfeiriad ar gwmpawd, a nodi pethau y gallant eu gweld i gyfeiriad penodol. Gall y mwy galluog ohonynt gyfeirio yn hyderus at wyth pwynt cyfeiriad y cwmpawd gyda mwy o fanylder.
179. Mae'r disgyblion hŷn yn arddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd edrych ar ôl yr amgylchedd. Mae ganddynt adnabyddiaeth dda o adnoddau y gellir eu hailgylchu, a sut y mae'r adnoddau yma yn cael eu defnyddio wedi iddynt gael eu hailgylchu.
180. Mae'r disgyblion yn casglu ffeithiau perthnasol ynglŷn a phwysigrwydd ailgylchu yn ofalus a defnyddio eu casgliadau yn effeithiol wrth ddadlau o blaid ailgylchu. Maent yn gwneud cynigion da ac synhwyrol ar beth allasai ddigwydd petai pobol ddim yn ailgylchu sbwriel.
181. Gallant egluro ystyr Masnach Deg yn glir, ac yn esbonio yn ddeallus sut y mae y system yn cynnal pobol a ffermwyr yng ngwledydd y Trydydd Byd. Maent yn disgrifio taith banana o'i thyfiant mewn gwlad bell yn hyderus, ac yn egluro y camau sydd ei angen arni er mwyn cyrraedd ein siopau drwy drefn marchnata y Farchnad Deg.

Diffygion

182. Does dim diffygion arwyddocaol.

Cerddoriaeth

Cyfnod Allweddol 1 : Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 2 : Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

183. Ar draws yr ysgol mae disgyblion yn datblygu sgiliau gwranddo da wrth wrando ar ystod o gerddoriaeth. Maent yn canu'n swynol ystod eang o ganeuon gan oslefu'n glir, brawddegau'n dda a chadw tonyddiaeth sicr. Mewn sesiynau cydganu mae eu perfformiadau yn drawiadol ac o safon uchel.
184. Yn CA1, mae'r disgyblion yn canu gyda brwdfrydedd, yn geirio ac yn cadw'r curiad yn dda. Maent yn deall fod gwahaniaeth rhwng caneuon 'araf a thawel' a 'cyflym a chryf'. Maent yn gwybod pan fydd traw yn codi neu'n disgyn. Maent yn copïo rhythm syml ac yn clapio'n gywir. Maent yn dewis offerynnau'n hyderus i greu cyfeiliant effeithiol i gyd fynd â lluniau o'r llyfr 'Mae Pawb yn mynd ar Safari.'
185. Yn CA2 mae'r disgyblion yn canu repertoire cynyddol o ganeuon unsain a rhan ganeuon gyda phwyslais priodol ar eirio clir. Mae disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn cadw curiad ac ail adrodd rhythm yn dda. Gallant ddynwared tiwn syml a chynnal rhan fel aelod o grŵp mewn tiwn gron. Maent yn archwilio a defnyddio amrediad o offerynnau traw a di draw gan greu a threfnu seiniau'n effeithiol wrth berfformio fel ensemble.
186. Mae gan disgyblion blwyddyn 5 a 6 ddealltwriaeth dda o ddynwared, traw a gwead. Mewn ymateb i'r gerdd "Cantre'r Gwaelod" maent yn cyfansoddi darn o gerddoriaeth syml er mwyn cyfleu synau sy'n cydweddu i'r stori. Maent yn cydweithio'n dda mewn grŵp gan ddefnyddio'r llais ac amrywiaeth o offerynnau traw a di draw i berfformio'u cyfansoddiadau yn hyderus ac effeithiol. Maent yn gwranddo'n astud ar berfformiadau'i gilydd ac yn gwerthuso'n ddeallus. Maent yn deall arwyddocâd sgôr graffeg syml fel cyfrwng i gyfansoddi.

Diffygion

187. Does dim diffygion arwyddocaol

| |
|-------------------------|
| Addysg gorfforol |
|-------------------------|

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2 – nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2 – nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

188. Mae disgyblion CA1 yn gwranddo yn astud ac yn ymateb yn dda i ofynion yr athrawes wrth ymateb i'r gweithrediadau symudol. Maent yn arddangos adnabyddiaeth dda o effaith symud ar y corff trwy deimlo a nodi cynnydd yng nghuriad eu calon.
189. Mae rhan fwyaf o'r ddisgyblion yn symud o gwmpas y neuadd yn dda gan newid cyflymder y dda wrth redeg a dangos rheolaeth dda wrth osgoi disgyblion eraill o'u cwmpas. Maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o gydbwysedd wrth greu symudiadau dawns syml, yn unigol a gyda phartner. Gallant arddangos symudiadau corfforol creadigol wrth ymateb i gerddoriaeth mewn gwersi dawns.

190. Yn CA2 mae rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn arddangos techneg gywir o redeg dros glwydi ac mewn ras gyfnewid. Mae rhai yn datblygu techneg briodol o daflu disgen, ac yn darganfod a chynnig dulliau ar sut i wella eu perfformiadau.
191. Mae nifer fawr o ddisgyblion CA2 yn cyrraedd safon da o dechneg a sgiliau mewn gemau tîm ac yn cymeryd rhan yn weithredol fel aelod o dimau cystadleuol o fewn eu cymuned. Mae llawer yn cymryd rhan mewn mabolgampau dalgylch ac yn dangos parch i reolau a'r parodrwydd i gydweithio mewn tîm gyda disgyblion o ysgolion eraill.
192. Mae'r disgyblion hynaf yn dangos yn ymdopi'n dda a sefyllfaoedd datrys problemau. Trwy gydweithio mewn tîm maent yn ymateb yn gadarnhaol i sialens o fewn amser penodol.

Diffygion

193. Does dim diffygion arwyddocaol

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Hoffwn nodi ein bod ni fel staff a llywodraethwyr Ysgol Pont y Gof yn falch iawn o dderbyn adroddiad cadarnhaol a chanmoliaethus am yr ysgol. Teimlwn ei fod yn adroddiad teg ac adeiladol, ac yn adlewyrchiad o'r gwaith caled a wneir gan y staff a'r disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr a'r staff yn ymfalchïo fod yr arolygwyr wedi darganfod fod yr ysgol yn gymuned ofalgar iawn lle caiff disgyblion ofal a chefnogaeth ragorol. Mae'r adroddiad yn canmol awyrgylch hapus, cyfforddus a dymunol yr ysgol. Yn ein tyb ni, mae hyn yn hanfodol er mwyn meithrin addysg effeithiol lle caiff pawb gyfle i gyrraedd eu potensial mewn amrywiaeth eang o feysydd a thrwy wahanol weithgareddau a phrofiadau.

Roedd yr arolygiad yn drylwyr ac yn eang ei chwmpas. Cafwyd trafodaethau buddiol a phroffesiynol wrth i'r arolygwyr ddod i farn, ac roedd cyfleoedd i arddangos tystiolaeth ac i leisio barn ar agweddau penodol. Roedd rôl y pennaeth fel enwebai yn y broses yn un gwerthfawr, agored a gonest. Serch hynny, teimlir fod y rôl yma yn rhoi pwysau ychwanegol ar bennaeth a oedd hefyd a gofal dosbarth llawn amser!

Yn y pynciau a arsylwyd gan yr arolygwyr dyfarnwyd fod y dysgu a'r addysgu yn dda ymhob un ohonynt. Cafwyd argymhellion am agweddau y gellid eu datblygu ymhellach ac mae'r ysgol yn teimlo'n hyderus i wneud hyn. Rydym hefyd yn ymfalchïo yn y ffaith fod rhai agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol wedi cyrraedd safonau da iawn.

Hoffem ddiolch yn fawr i'r tîm arolygu am eu proffesiynoldeb a'u cwrteisi. Bu'r arolygiad a'r argymhellion yn fodd o atgyfnerthu ein cryfderau, gan hefyd nodi rhai meysydd ble medrwn ddatblygu ymhellach er mwyn symud yr ysgol yn ei blaen.

Anfonir copi o gynllun gweithredu'r ysgol mewn ymateb i argymhellion yr arolygiad i'r holl rieni. Bydd adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni yn adrodd ar y cynnydd rydym yn ei wneud o ran argymhellion yr arolygiad.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

| | |
|---------------------------|---------------------------------|
| Enw'r ysgol | Ysgol Pont y Gof |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Ystod oedran y disgyblion | 4-11 |
| Cyfeiriad yr ysgol | Botwnnog Pwllheli Gwynedd |
| Cod post | LL53 8RA |
| Rhif ffôn | 01758 730318 |

| | |
|---|--------------------|
| Pennaeth | Mr Euros Davies |
| Dyddiad penodi | Medi 2005 |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Awdurdod priodol | Mrs Gwladys Thomas |
| Arolygydd Cofrestredig | Mr Goronwy Morris |
| Dyddiadau'r arolwg | 21-23 Mai 2007 |

Atodiad 2

Data a dangosyddion yr ysgol

| Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn | | | | | | | | | |
|--|-------------|---|----|----|----|----|----|----|----------|
| Grŵp blwyddyn | M (call) | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfanswm |
| Nifer y disgyblion | 5 | 6 | 11 | 13 | 14 | 9 | 8 | 8 | 74 |

| Cyfanswm nifer yr athrawon | | | |
|----------------------------|-------------|------------|----------------------------------|
| | Amser llawn | Rhan-amser | Cyferth ag amser llawn (call) |
| Nifer yr athrawon | 4 | 0.2 | 4.2 |

| Gwybodaeth staffio | |
|--|------|
| Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig) | 23:1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin | D/B |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig | 9:1 |
| Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig | 19 |
| Cymhareb athro (call): dosbarth | 1:1 |

| Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad | | | |
|---|---|-------|-------------------|
| Tymor | M | D | Gweddill yr ysgol |
| Haf 2006 | | 95.9% | 94.4% |
| Hydref 2006 | | 93.6% | 96.9% |
| Gwanwyn 2007 | | 91.8% | 93.4% |

| | |
|--|------|
| Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim | 8.7% |
| Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad | 0 |

Atodiad 3

Canlyniadau Aseu'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd Cyfnod Allweddol 1:

| Canlyniadau Aseuadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006 | | | Nifer y disgyblion yn B2 | | 14 | | |
|--|--------------|--------------|--------------------------|---|----|----|----|
| Canran y disgyblion ar bob lefel | | | | | | | |
| | | | D | W | 1 | 2 | 3 |
| Cymraeg | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | | 36 | 64 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 8 | 64 | 26 |
| Cymraeg: llafaredd | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | | 36 | 64 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 1 | 10 | 64 | 25 |
| Cymraeg: darllen | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | | 79 | 21 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 10 | 67 | 33 |
| Cymraeg: ysgrifennu | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | | 93 | 7 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 18 | 67 | 13 |
| Mathemateg | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 7 | 71 | 22 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 11 | 63 | 24 |
| Gwyddoniaeth | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 7 | 71 | 22 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 9 | 65 | 24 |

| Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro | | | |
|---|-----|-------------|-----|
| Yn yr ysgol | 93% | Yng Nghymru | 81% |

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

**Canlyniadau Aseu'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd Cyfnod Allweddol 2:**

| Canlyniadau Aseuadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006 | | | Nifer y disgyblion yn B6 11 | | | | | | | | |
|---|--------------|--------------|--|---|---|---|---|---|----|----|----|
| Canran y disgyblion ar bob lefel | | | | | | | | | | | |
| | | | D | A | F | W | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| Saesneg | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 | 27 | 64 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 4 | 15 | 47 | 32 |
| Cymraeg | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 | 36 | 55 |
| | | Cenedlaethol | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 5 | 17 | 50 | 26 |
| Mathemateg | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 | 18 | 73 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 3 | 15 | 47 | 33 |
| Gwyddoniaeth | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 | 27 | 64 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 | 11 | 51 | 35 |

| Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (mamiath) yn ôl aseiad athro | | | |
|---|------------|--------------------|------------|
| Yn yr ysgol | 91% | Yng Nghymru | 74% |

- D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
A Disgyblion sydd wedi methu â chofnodi lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu â chofnodi lefel oherwydd rhesymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd tri arolygydd chwech diwrnod arolygydd yn yr ysgol, a chyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad.

Ymwelodd yr arolygwyr â:

- 24 o wersi neu wersi rhannol;
- pob dosbarth; ac
- addoli ar y cyd.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfod fel tîm ar ddechrau'r arolwg a gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad; ac
- uwch reolwyr, yr athrawon, y staff cymorth a'r staff gweinyddol, y cyngor ysgol ynghyd â grwpiau o ddisgyblion yn ystod yr arolygiad.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- 28 o ymatebion i holiadur rhieni;
- dogfennaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad; ac
- ystod eang o waith y disgyblion yn y gorffennol a'r presennol.

Bu'r pennaeth yn ei rôl fel enwebai yn rhan o bob cyfarfod tîm.

Ar ôl yr arolygiad, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

| Aelod tîm | Cyfrifoldebau |
|--|--|
| Mr Goronwy Morris Arolygydd. Cofrestredig | Cyd-destun Crynodeb ac Argymhellion Cwestiynau Allweddol 1,2,5 a 6 Mathemateg Technoleg Cerdd |
| Mr William Owen Arolygydd Lleyg | Cyfraniadau at gwestiynau 1,3,4 a 5 |
| Mr Glyn Griffiths Arolygydd tîm | Cwestiynau Allweddol 3,4 a 7 a chyfraniadau at gwestiynau 1a 2 Gwyddoniaeth Daearyddiaeth Addysg Gorfforol |
| Mr Euros Davies Pennaeth Enwebai | Cyfraniadau i'r holl gwestiynau trwy gyfrannu gwybodaeth |

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r arolygwyr ddiolch i lywodraethwyr, pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.

Contractwr

Partneriaeth Dyfri Partnership
Awel Twyi
Llangadog Road
Llandovery
Carmarthenshire
SA20 0EX